

Tasg Gyfeiriol 2: Ditectifs y cwricwlwm – ymchwilio i'r hen a'r newydd

Pwrpas y dasg hon yw meithrin dealltwriaeth ddyfnach ynoch o'r cwricwlwm cyfredol ac o agweddau ar y cwricwlwm newydd arfaethedig.

Bydd eich grŵp chi yn 'dditectifs' Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) ar gyfer un MDPh penodol o fewn y cwricwlwm arfaethedig newydd. Byddwch chi'n cael eich neilltuo i'r MDPh hwn.

Eich tasg chi fydd edrych ar y datblygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm, yn gyffredinol ac o ran eich MDPh penodol chi, sydd ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/>

ac yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022> Sylwer ar gyfer pob MDPh mae hefyd cyflwyniad fideo byr a dogfennaeth allweddol.

Bydd angen i chi hefyd edrych ar ddogfennaeth berthnasol yn ymwneud â'r cwricwlwm cyfredol (e.e. Fframwaith y Cyfnod Sylfaen/pynciau Cyfnod Allweddol 2).

Eich gwaith chi yw cymharu a chyferbynnu gofynion y cwricwlwm 'cyfredol' a'r un 'newydd' (drafft).

Ystyriwch yr agweddau canlynol fel mannau cychwyn:

- Beth mae Donaldson yn ei ddweud am y cwmpas am yr MDPh hwn mewn Dyfodol Llwyddiannus?
- Sut mae eich MDPh yn cysylltu â gofynion y cwricwlwm cyfredol – ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2? Beth yw ei gwmpas?
- Beth yw'r newidiadau allweddol? A oes unrhyw eiriau neu dermau 'ffasiynol' yn gysylltiedig â'r MDPh hwn?
- Sut mae'r MDPh yn adlewyrchu'r pedwar diben?
- Sut mae'r MDPh yn adlewyrchu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd?
- A oes unrhyw beth 'ar goll' neu 'yn eisiau' o'r MDPh newydd arfaethedig, o gymharu â'r gofynion cyfredol?
- Beth yw manteision posibl gweithio gyda'r MDPh newydd?
- Beth yw cyfyngiadau posibl gweithio fel hyn
- Beth yw'r goblygiadau posibl i chi fel athrawon wrth weithio gyda'r MDPh newydd hwn?

Dychmygwch eich bod yn cyflwyno hyn i dîm o staff yn yr ysgol. Y nod yw paratoi poster un sleid sy'n amlinellu, mewn ffordd weledol, agweddau allweddol a hanfodol yr MDPh drafft wrth ystyried sut y mae'n debyg neu'n wahanol i'r cwricwlwm cyfredol.

Rhaid i bob aelod o'r grŵp fod yn barod i siarad yn hyderus am yr hyn sydd yn y sleid.

Meini prawf llwyddo:

-mae'r grŵp yn cynhyrchu poster PowerPoint 'un sleid' deniadol a llawn gwybodaeth sy'n crynhoi agweddau allweddol ar yr MDPh newydd.

-mae pob person yn gallu crynhoi agweddau allweddol ar yr MDPh newydd (termau allweddol, syniadau allweddol, ffocysau allweddol)

-mae pob person yn gallu nodi sut mae'r MDPh hwn yn debyg ac yn wahanol i'r cwricwlwm cyfredol

-mae pob person yn gallu ystyried goblygiadau posibl gweithio gyda'r MDPh newydd hwn.

Bydd angen i chi gyflwyno hwn yn y prynhawn, pan fyddwch hefyd yn dysgu am ganfyddiadau'r grwpiau eraill!